**PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU**
**GWEITHREDU RHAGLENNI CRONFEYDD STRWYTHUROL WROPEAIDD**

**Mater**
1. Cynigion i'w gwneud i'r Cynulliad gan y Tasglu Ewropeaidd yngln â threfniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol.

**Cyflwyniad**
2. Mae'r Tasglu wedi ystyried dwy agwedd ar weithredu:

- trefniadau ar gyfer sicrhau asesiad mwy strategol o anghenion ardaloedd, gan sicrhau bod budd rhaglenni a ariennir gan Ewrop yn cael effaith ehangach; a
- natur y corff fydd yn gweinyddu'r rhaglenni newydd.

Disgrifir pob mater isod, ond hysbysir y Pwyllgor i'r papur hwn gael ei baratoi cyn cyfarfod y Tasglu ar 28 Medi, pan fydd y ddwy agwedd yn cael eu hystyried. Bydd swyddogion yn darparu adroddiad llafar yng nghyfarfod y Pwyllgor o drafodaethau'r Tasglu ar 28 Medi.

**Pecynnau ynteu Projectau?**
3. Hyd yn hyn mae'r Tasglu wedi argymell symud i ffwrdd oddi wrth y trefniadau presennol lle mae noddwyr yn gwneud cais am arian ar gyfer projectau dewisol. Ymhlith y dadleuon o blaid ymagwedd newydd mae:

- Seilir asesiadau o brojectau unigol ar eu rhinweddau sylfaenol, ac ac mae'r gystadleuaeth hon yn annog gwasgaru arian ar hap;
- Mae'r system yn ei hanfod yn ymatebol - ymdrinir â cheisiadau pan y'u gwneir, ond nid yw blaenoriaethau'n cael eu hyrwyddo;
- Mae'r system yn wastraffus - rhoddir cryn ymdrech i baratoi ceisiadau, er y bydd 1 o bob 3 chais yn methu. Byddai hyn yn fwy annerbyniol fyth mewn sefyllfa lle y gellid derbyn rhai miloedd o geisiadau.

4. Mae'r Tasglu felly yn ystyried mynd i'r afael â'r mater mewn modd gwahanol, fel a ganlyn:

- Dylid gosod system fwy strategol yn cynnwys "pecynnau" neu strategaethau cenedlaethol a lleol yn hytrach na'r system bresennol o gylchoedd bidio gyda nifer fawr o geisiadau ar gyfer projectau unigol;
- Byddai'r strategaethau "cenedlaethol" yn cynnwys pecynnau thematig e.e. trosglwyddo technoleg neu gefnogaeth ar gyfer marchnata twristiaeth, i'w hasesu gan y bartneriaeth gydag arian yn cael ei neilltuo am gyfnod penodol o flynyddoedd. Gallai'r noddwyr fod

yn gyrff sy'n gweithredu ar lefel cenedlaethol yng Nghymru e.e. Bwrdd Croeso Cymru. Byddai'n rhaid i gynigion ar gyfer strategaethau ddangos cysylltiadau gyda chamau gweithredu ar lefel is-ranbarthol neu leol;

- Byddai'n hanfodol sefydlu Ysgrifenyddiaeth ganolog gref i ymgymryd â'r gwaith gweinyddu manwl ac i fonitro rhaglenni, a gwasanaethu Pwyllgor Monitro. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithredu'n bro-actif, ac yn gweithio gyda phartneriaid i drafod a pharatoi cynigion strategol.

5. Tybir y gellid ariannu rhai pecynnau o sawl ffynhonnell e.e. y gellid ariannu rhai gweithgareddau mewn ardal arbennig o'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd a rhai o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (er byddai'n rhaid sicrhau y gellid olrhain rwyn ffynhonnell yr arian a ddefnyddiwyd at ddibenion cyfrifo).

6. Cwestiwn allweddol yngln â'r dull "pecyn" o weithio yw sut y gellid integreiddio pecynnau "cenedlaethol" a strategaethau mwy lleol. Er enghraifft, beth pe bai strategaeth marchnata twristiaeth ar gyfer ardal Amcan 1 yn gyfan yn cael ei gymeradwyo? Sut y gellid sicrhau y byddai strategaeth twristiaeth ar gyfer Ceredigion, dyweder, yn cyd-fynd â'r strategaeth marchnata twristiaeth ehangach? Ym marn y Tasglu, byddai'n rhaid i'r Ysgrifenyddiaeth genedlaethol chwarae rôl allweddol, yn rhinwedd ei chyfrifoldeb am gydlynu a gweithredu'n bro-actif. Mae hwn yn wahanol iawn i'r rôl a chwaraeir gan Weithrediaeth Rhaglenni Cymreig Ewropeaidd yn unol â'r trefniadau presennol.

**Natur y Corff**

7. Mae hyn arwain at y cwestiwn ynghylch pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu'r rhaglenni newydd. Dylid pwysleisio nad yw'r disgrifiad o'r gwendidau a geir yn y system bresennol yn feirniadaeth ar y corff sy'n gweinyddu'r system honno, WEPE. Mae'r trefniadau presennol, gyda WEPE yn gyfrifol am ddelio â cheisiadau ac am eu hasesu, ond gyda'r Cynulliad yn gyfrifol am dalu (am resymau'n ymwneud ag atebolrwydd), yn achosi rhaniad lletchwith rhwng swyddogaethau sy'n arwain at ddyblygu gwaith yn ogystal â chostau ychwanegol.

8. Mae WEPE yn sefyll ar un pen i'r sbectrwm - mae'n endid cyfreithiol ar wahân, yn gwbl annibynnol ar yr hen Swyddfa Gymreig a bellach y Cynulliad. Ar ben arall y sbectrwm, byddai trefniant lle y byddai'r Cynulliad yn ysgwyddo pob cyfrifoldeb am weinyddu'r rhaglenni newydd. Yn yr achos hwn, a fyddai'n golygu mynd yn ôl i'r un sefyllfa a gafwyd cyn i WEPE gael ei greu, byddai'r holl dasgau perthnasol yn disgyn ar ysgwyddau gweision sifil yn yr un modd y mae adrannau'r Cynulliad yn gweinyddu rhaglenni adfywio domestig ar hyn o bryd. Byddai mabwysiadu'r trefniant hwn yn golygu na fyddai gan y bartneriaeth rhwng y sector breifat, y sector gyhoeddus a chyrff gwirfoddol fawr ddim dylanwad arno.

9. Am y rheswm hwn, bu'r Tasglu'n ystyried a fyddai'n briodol i argymell creu asiantaeth weithredol i weinyddu'r rhaglenni. Byddai asiantaeth o'r fath (er enghraifft CADW) yn cael ei

staffio gan swyddogion o statws gweision sifil, ond byddai'n endid ar wahân gyda chyfrifon ar wahân, a byddai'n cael ei strwythuro'n y fath fodd fel y byddai gan y bartneriaeth ddylanwad ar ei gwaith. Mae gan CADW er enghraifft, fwrdd cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr amryw o fuddiannau allanol ymysg ei aelodau. Tynnwyd sylw'r Tasglu at y model hwn.

**Casgliad**

10. Gall y Pwyllgor ddymuno trafod y materion a godir yn y papur hwn.

**Medi 1999** **Adran Materion Ewropeaidd**